Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bro Elwern
# Gwyddelwern
# Corwen
# Sir Ddinbych
# LL21 9DF

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bro Elwern ym mhentref Gwyddelwern ger Corwen, Sir Ddinbych. Mae wedi ei ffederaleiddio gydag Ysgol Betws Gwerfyl Goch.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu yno. Fe gyflwynir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Oddeutu hanner y disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Nid oes yr un disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol

Derbynnir disgyblion i'r dosbarth meithrin, yn amser llawn ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 44 ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn mewn dau ddosbarth oed cymysg.

Mae oddeutu 10% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae oddeutu 7% ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r nifer yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Ebrill 2012. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Elwern yn 2015-2016 yn £5,605. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £8,860 a'r lleiafswm yw £2,933. Mae Ysgol Bro Elwern yn y 6ed safle allan o'r 46 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- bron pob disgybl yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- ymddygiad mwyafrif y disgyblion yn dda a dangosant barch a gofal tuag at ei gilydd
- darpariaeth effeithiol yn bodoli i hyrwyddo lles disgyblion
- disgyblion yn hapus a diogel
- darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol ar y deilliannau a lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- bron bob disgybl yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n dda
- aelodau'r corff llywodraethol yn dod yn gynyddol hyderus i ddwyn yr ysgol i gof am ei pherfformiad
- ystod o bartneriaid effeithiol yn bodoli, ac yn cefnogi'r ysgol yn dda
- cydweithio brwdfrydig rhwng staff dwy ysgol y ffederasiwn i drefnu profiadau amrywiol a diddorol

## Argymhellion

A1 Codi safonau llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A4 Gosod targedau mwy heriol i ddisgyblion a chryfhau sylwadau marcio athrawon yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau bod disgyblion yn deall yn well yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella

A5 Datblygu ymhellach rôl aelodau'r corff llywodraethol ym mhrosesau strategol yr ysgol i'w galluogi i herio' arweinwyr yn fwy effeithiol ynghylch ei pherfformiad

A6 Sicrhau bod systemau monitro yn ffocysu'n glir ac yn rheolaidd ar waith y disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod cyflawniad yn amrywio'n naturiol yn unol â'u gallu, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i oddeutu hanner y disgyblion. Er hyn, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae'r rhan fwyaf yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n dda yn y Gymraeg, gan ddefnyddio ystod o eirfa bwrpasol sy'n cyd-fynd â'u themâu dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n rhydd yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn dangos gafael sicr ar eirfa bynciol wrth drafod eu gwaith. Mae llawer yn trafod ac yn mynegi barn yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn hyderus ddwyieithog.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl ac ystyrlon ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer yn medru trafod storïau a chymeriadau'n hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn gywir ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant drafod prif elfennau'r storïau a'r llyfrau maent yn eu hoffi, yn ogystal â'u hoff awduron.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan amrywio dechrau eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth gynyddol o ansoddeiriau a chymariaethau. Mae medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn datblygu'n briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio ystod o ansoddeiriau effeithiol. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg ar draws y pynciau. Er bod llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus, mae diffyg cywirdeb yn y Gymraeg ar adegau yn amharu ar ansawdd a safon eu gwaith.

Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn flêr.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos cynnydd da mewn medrau rhif. Mae llawer yn casglu data i ddarganfod hoff liw'r disgyblion a chyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graff syml yn gywir. Maent yn datrys problemau'n dda wrth gynnal arbrawf i fesur y pellter mae ceir o wahanol faint yn teithio, ac yn cyflwyno eu darganfyddiadau'n drefnus a dehongli canlyniadau yn ddeallus.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ffracsiynau, degolion ac onglau. Maent yn defnyddio holiaduron yn effeithiol ar gyfer casglu gwybodaeth am daldra'r disgyblion yn y dosbarth ac yn cynhyrchu graffiau clir i gyfleu eu canfyddiadau. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda mewn pynciau eraill, yn enwedig mewn gwyddoniaeth. Er enghraifft, wrth gymharu tymheredd y tu mewn a thu allan i'r ysgol a chofnodi hyn fel graff linell.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer y disgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn fach iawn. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Yn ogystal, mae'r niferoedd yn rhy fach i wneud cymhariaeth ystyrlon rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad mewn llythrennedd a mathemateg ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf mewn tair allan o'r pedair blynedd o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn iaith a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg a rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf mewn Saesneg. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn y 25% isaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn chwaraeon yn ystod gwersi ac yn ystod y Clwb Dal i Fynd. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin gyda pharch. Gwyddant eu bod yn gallu troi at unrhyw oedolyn am gymorth pan fo angen.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda a dangosant barch a gofal tuag at ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn ddysgwyr cydwybodol sy'n gallu cydweithio'n effeithiol gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn dechrau dangos ymwybyddiaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn dod yn gynyddol hyderus wrth werthuso gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan gynnig awgrymiadau ar sut i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn gweithredu'n effeithiol gan gaffael barn a

sylwadau cyd-ddisgyblion yn rheolaidd. Maent yn falch o'u hymdrechion i godi arian i wella offer chwarae a chodi arian er budd elusennau fel Plant Mewn Angen ac i gefnogi ysgol yn Nepal.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n briodol i'r gymuned leol drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau, cyngherddau a gweithgareddau i ddathlu hanes cyn dywysog Cymru, Owain Glyndŵr. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau cymunedol.

Mae tueddiadau mewn lefelau presenoldeb yn anghyson ond mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf, mae wedi bod yn uwch na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'n ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae cynllunio bwriadus yn sicrhau amrediad da o brofiadau sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn llwyddiannus wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd er mwyn sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer eu medrau yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol, gyda'r staff yn modelu iaith yn dda ac yn annog y disgyblion i'w defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn barhaus. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu yn estynedig yn y Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol ac effeithiol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant, hanes a daearyddiaeth Cymru. Mae'n trefnu ymweliadau i fannau diddorol ac yn gwahodd ymwelwyr fel awduron i'r ysgol i drafod eu gwaith gyda'r disgyblion. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol fel ymweld â chanolfan breswyl Glan-llyn hefyd yn cyfrannu'n dda at ddatblygu annibyniaeth a chodi hyder disgyblion mewn amgylchedd Cymreig.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Mae'r pwyllgor eco yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth disgyblion eraill am bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni ac fe geir cysylltiadau da gydag ysgol yn Lesotho a Nepal, sy'n codi eu hymwybyddiaeth am fywyd plant mewn ardaloedd sy'n wahanol iawn i Gymru.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas waith fuddiol gyda'i gilydd a chyda'r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i roi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Ar y cyfan, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda.

Yn y rhan fwyaf o wersi ble mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn glir ac yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu a'r

addysgu.  Mae'r cyflwyniadau'n fywiog gyda chyflymder da a holi effeithiol.  Fodd bynnag, mae tueddiad gan athrawon i or-arwain y disgyblion.  Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Ar y cyfan, mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith.  Fodd bynnag, er eu bod yn ysgrifennu sylwadau calonogol wrth farcio gwaith disgyblion, nid yw'r sylwadau hyn bob amser yn ddigon adeiladol i roi arweiniad clir iddynt ar sut i wella eu gwaith.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wedi eu hadolygu'n ddiweddar.  Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i farnu pa mor effeithiol fydd y drefn newydd o osod targedau mwy heriol i'r disgyblion.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol lle teimla'r disgyblion yn ddiogel.  Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut i fod yn ddiogel yn effeithiol.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli a thrwy weithgareddau ehangach y cwricwlwm.  Gwahoddir ymwelwyr i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes, fel gofalu am yr amgylchedd ac ystyried plant a phobl sy'n llai ffodus na nhw.  Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr ymdrech i godi arian i drigolion Nepal ar ôl y ddaeargryn yn 2014.

Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar a darperir rhaglenni ymyrraeth priodol i'r rhai sydd angen cefnogaeth benodol.  Mae'r cynlluniau addysg unigol yn gosod targedau cyraeddadwy ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y disgyblion.  Cânt eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r disgyblion a'r rhieni.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cadarnhaol gydag asiantaethau allanol arbenigol, fel y seicolegydd addysg a'r therapydd iaith, sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb yn llwyddiannus.  Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy weithgareddau amrywiol, sy'n cynnwys astudio gwledydd tramor fel Nepal.

Mae'r ysgol mewn hen adeilad sydd ddim yn gwbl addas ar gyfer gweithredu holl ofynion y cwricwlwm cyfoes.  Fodd bynnag, gwneir defnydd da ohono gan y staff.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'r cae cymunedol a'r neuadd bentref gyfagos ar gyfer chwaraeon amrywiol.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol ac fe wneir defnydd cyson ohonynt. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfarpar ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion.

Mae arddangosfeydd deniadol o waith a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol. Mae'r gwaith ar gelfi Affricanaidd a'r bydysawd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae hyn yn cefnogi'r dysgu'n dda.

Mae safon glanweithdra yn dda ac mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal yn a'i gadw'n briodol. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r staff yn llwyddo i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion. Mae'r athrawon yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn trafod a chynllunio'n llwyddiannus ar y cyd. Maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn cefnogi'r pennaeth yn gydwybodol.

Mae ethos o gydweithio brwdfrydig hefyd yn bodoli rhwng staff y ddwy ysgol yn y ffederasiwn, gyda'r athrawon yn trefnu profiadau diddorol ac amrywiol i ddisgyblion ar y cyd, yn ogystal â rhannu arfer dda. Mae gan y staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gynllunio manwl.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn bodoli, sy'n cyfrannu at welliannau mewn dysgu ac addysgu. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i rannu sesiynau hyfforddiant gydag ysgolion eraill yn y dalgylch i'w galluogi i fanteisio ar ystod briodol o weithgareddau i wella'u perfformiad.
.
Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar, ac mae gan yr aelodau ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Er iddynt ddechrau ymweld â'r dosbarthiadau'n ddiweddar, nid yw rôl aelodau'r corff llywodraethol ym mhrosesau strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n llawn i'w galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol ynghylch ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel llythrennedd a rhifedd ac wedi nodi'r angen i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu fel blaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'n gwneud defnydd priodol o ddata perfformiad i adnabod cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, nid yw deilliannau'r gweithdrefnau monitro yn ddigon cadarn nac ychwaith wedi'u ffocysu'n ddigon clir ar graffu ar waith disgyblion, nac yn canolbwyntio'n effeithiol ar gynnydd a chyflawniad grwpiau o

ddisgyblion. Er hynny, mae arweinwyr yn rhannu canfyddiadau'r prosesau a'u trafod yn briodol gyda'r holl staff a'r llywodraethwyr, a rhoddir sylw teilwng i sylwadau ac awgrymiadau disgyblion a rhieni fel rhan o'r broses.

Mae'r ysgol yn dadansoddi asesiadau ffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ofalus ond, eto, nid yw'r broses yn ddigon grymus nac wedi'i seilio'n ddigonol ar fonitro gwaith y disgyblion.

Mae'r cynllun datblygu yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol, ac mae iddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n benodol ar wella deilliannau'r disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio'n ormodol ar gynnydd nifer fach o ddisgyblion ar y deilliannau a'r lefelau uwch.

Ni fu digon o gynnydd yn erbyn pob argymhelliad a wnaed yn ystod yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaid strategol da sy'n cyfrannu effeithiol at wella safonau a lles y disgyblion. Mae perthynas gref yn bodoli gyda rhieni a chyfeillion, sy'n cyfrannu symiau sylweddol o arian at brynu adnoddau ac offer i ddatblygu medrau. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cegin yn y Cyfnod Sylfaen a'r twnnel tyfu yn yr ardd. Mae ffocws y staff ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad y rhieni i addysg eu plant.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn datblygu gydag ysgol arall y ffederasiwn trwy gydweithio pwrpasol a rhannu arbenigedd ac arfer dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safon gwaith disgyblion, ac ar ddatblygiad proffesiynol staff. Mae'r cydweithio llwyddiannus diweddar i sefydlu strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn y ddwy ysgol yn enghraifft dda o hyn.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda'r gymuned leol. Mae cyfraniad disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd. Mae trefniadau pontio effeithiol ac ymweliadau cyson yn sicrhau trosglwyddo esmwyth ar gyfer y disgyblion hŷn.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod i safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Mae cymorthyddion yn rhoi cefnogaeth dda ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon. Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus yn dda.

Mae'r adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r buddsoddiad diweddar mewn offer TGCh yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau'r disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr, ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth, a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu disgyblion penodol. Fodd bynnag, nid yw'n monitro effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon manwl.

Er nad oes rhwydweithiau dysgu proffesiynol swyddogol yn bodoli ar hyn o bryd, mae cydweithio agos rhwng staff y ddwy ysgol y ffederasiwn ac ysgolion yn y clwstwr.

O ystyried y safonau a'r ddarpariaeth a gynigir, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6632219 - Ysgol Bro Elwern**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 39 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 5 | * | * | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 40.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | * | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | * | * | 12.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | * | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 60.0 | * | * | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | * | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 40.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | * | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6632219 - Ysgol Bro Elwern**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 39 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 5 | 6 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 100.0 | 66.7 | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | * |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 66.7 | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 3 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 66.7 | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 17 | 17<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 17 | 17<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 17 | 15<br>88%<br>96% | 2<br>12%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 17 | 17<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 17 | 15<br>88%<br>91% | 2<br>12%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 17 | 17<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 17 | 13<br>76%<br>77% | 4<br>24%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 17 | 15<br>88%<br>84% | 2<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Edna Davies | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Buddug Ellis | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.